

# TAFLEN HER

I gyflawni her bob wythnos, treuliwch bum munud y dydd yn gwneud y gweithgareddau isod.

Her Haf  
Dechrau  
Siarad

Get Talking  
Summer  
Challenge

## Wythnos 1

Ein lle gorau yw  
wyneb yn wyneb



Defnyddia'r amser yma i ddod i adnabod dy blentyn hyd yn oed yn well! Beth mae'n mwynhau edrych arno? Pa synau mae'n hoffi eu gwneud?

...chwarae pi-po a gwneud wynebau doniol!

## Wythnos 2

Cana gân i fi  
unrhyw bryd



Gofynna i rywun ddysgu cân neu rigwm newydd i ti, ac yna galli ei ymarfer gyda dy blentyn! Am her ychwanegol, beth am wneud ystumiau hefyd?



## Wythnos 3

Beth am siarad a  
chwarae bob dydd



Beth am droi tasgau bob dydd yn amser chwarae? Wrth i ti helpu dy blentyn bach i wisgo, rho ei sanau ar ei ddwylo i weld beth mae'n dweud ac yn gwneud nesaf!

...cofia, gallwch siarad a chwarae unrhyw bryd!



Ticiwch y blwch pan fyddwch wedi gorffen

## Wythnos 4

Beth am  
edrych ar lyfrau  
gyda'n gilydd



Alli di rannu llyfr gyda dy blentyn bach bob dydd yr wythnos hon? Dilyn ei arweiniad ac edrychwch ar y lluniau gyda'ch gilydd. Does dim angen i chi ddarllen y geiriau – siaradwch am beth allwch chi ei weld!

...siarad gan ddefnyddio llais doniol

## Wythnos 5

Siarada gyda fi  
am beth gallwn  
ni ei weld



Bob dydd yr wythnos hon, pwyntia at bum eitem yn y tŷ a dweud y geiriau wrth dy blentyn bach. Mae dy blentyn yn dy wyllo ac yn gwrando arnat ti, felly rwy'ti'n ei helpu i ddysgu geiriau newydd drwy'r amser!

## Wythnos 6

Beth am droi  
'amser sgrin' yn  
'amser ti a fi'!



Am bob cwestiwn rwy'ti yn ei ofyn, ceisia wneud pedwar sylw. Er enghraifft: "Pwy yw dy hoff gymeriad? Dw i'n hoffi Lala oherwydd ei bod hi'n ddoniol. Nawr mae hi'n neidio i fyny ac i lawr. Mae neidio yn hwyl! Dere i ni neidio hefyd."



...ie, afal crwn, sgleiniog"

## Wythnos 7

Ychwanega air at  
beth rwy'ti wedi fy  
nghlywed i'n dweud



Dewis air nad wyt ti'n ei ddefnyddio gyda dy blentyn yn aml, yna ceisia ei ddweud pum gwaith y dydd. Gallai fod yn air gwneud fel 'arnofio', gair teimlad fel 'hamddenol', neu air disgrifio fel 'sgleiniog'!